# CO2nnect

CO2 on the way to school

## Ymgyrch ynghylch trafnidiaeth a newid hinsawdd i ysgolion y byd

## Croeso i $CO_2$nnect

**- Ymgyrch i ysgolion sy'n canolbwyntio ar allyriadau $CO_2$ trafnidiaeth**

Dylem ymdrechu i roi'r sgiliau i ddisgyblion allu mynd i'r afael â heriau datblygiad cynaliadwy - yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd sydd wedi ei ddarogan gan y Cenhedloedd Unedig. Gellir addasu'r gweithgareddau'n ddidrafferth ar gyfer amrywiaeth o grwpiau oed a'u cysylltu â chwricwlwm llawer o byncíau.

**Gweithgareddau $CO_2$nnect ar gyfer ysgolion:**

- ymchwilio i allyriadau $CO_2$ a ddaw yn sgil teithio i'r ysgol
- rhannu'r casgliadau trwy gronfa ddata ryngwladol
- cymharu a thrafod allyriadau $CO_2$
- gofyn cwestiynau i arbenigwr ar hinsawdd a thrafnidiaeth
- creu partneriaethau gydag ysgolion eraill
- cwrdd â phobl yn eich cymuned i drafod allyriadau trafnidiaeth
- creu a rhannu syniadau ynglŷn â sut i leihau allyriadau $CO_2$
- cymryd rhan mewn cystadleuaeth $CO_2$nnect i ysgolion,
- sy'n gysylltiedig â'r gynhadledd ar newid hinsawdd yn Copenhagen yn 2009

**Deilliannau dysgu disgwyliedig:**

- gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â'r hinsawdd a thrafnidiaeth
- sgiliau cyfranogi, cydweithio a chyfathrebu
- gwella sgiliau digidol a sgiliau iaith
- ysgogiad i gymryd rhan weithredol yn y gymuned

**Dyma gyfeiriad gwefan:**

**www.co2nnect.org**

C.G. Addysg a Diwylliant

Rhaglen Dysgu Gydol Oes Comenius

*Mae'r project CO₂nnect wedi ei drefnu gan y project "SUPPORT - Partnership and participation for a sustainable tomorrow" sydd wedi ei ariannu am 2007-2010 gan raglen ddysgu gydol oes Comenius yr Undeb Ewropeaidd.*

*Y Norwegian Directorate for Education and Training sy' n gyfan gwbl gyfrifol am y cyhoeddiad hwn. Nid yw Education Audiovisual and Culture Executive Agency yr Undeb Ewropeaidd yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth hon.*



Ffoto: : Jeff Werner

Ffoto: : Håkon Sparre